

Manylebau

Cydnawsedd	Tunstall / TeleAlarm
Amledd Gweithredu	869 MHz
Maint	H115 x L169 x D28 mm
Mewnbyn	2 x mewnbynnau RJ12
Opsionau Rhaglennu	Switsh cylchdro hawdd ei ddewis
Opsionau Sain	Opsion ar gyfer sicrwydd clywedol
Cyflenwad pŵer	Batris AA (Defnyddiwr i newid)
Bywyd Batri	3 blynedd o dan yr amodau canlynol - 5 gweithrediad larwm y dydd
Pellter gweithio ddi-wifr	Hyd at 600m
Cydymffurfio	CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

Amnewid Batri

Mae'n bwysig i ddefnyddio dau fatri 'Energizer L91 Ultimate Lithium AA' (M115-110) i sicrhau'r oes batri fwyaf a bod y larwm cefndir batri isel yn gywir. Sylwch ar y marciau yn adran y batri a sicrhau bod y batris yn cael eu mewnosod yn gywir.

Nodyn: Wrth ailosod batris, mae'n bwysig draenio unrhyw bŵer gweddilliol yn llwyr cyn mewnosod batris newydd. I wneud hyn, tynnwch yr hen fatris, pwyswch a dal y switsh ymlaen / i ffwrdd am 5 eiliad, rhyddhau'r switsh, yna osod y batris newydd.

Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

Datganiad cydymffurfiaeth:

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Connect yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU



Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin. Defnyddiwch o dan do mewn lleoliad sych yn unig.

Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.



Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

Tunstall

Connect

Trosglwyddydd Cyffredinol Deallus


Canllaw
Rhaglennu v1.0



Mae'r Connect yn drosglwyddydd cyffredinol deallus.

Yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio, gall droi unrhyw ddyfais sydd wedi ei wifro yn synhwyrdd radio! Mae'n gweithio fel rhyngwyneb rhwng dyfeisiau sydd wedi ei wifro a systemau Teleofal. Darperir dau fewnbwn terfynell RJ12 ar gyfer cysylltiadau dyfais luosog.

Tunstall



Gweithrediad

Mae'r Connect yn drosglwyddu cyffredinol hawdd i ddefnyddio sydd efo 8 wahanol osodiad, opsiwn sain a'r opsiwn i analluogi'r botwm i ffwrdd/ymlaen. Mae yna dau fewnbwn RJ12. Dilynwch y cyfarwyddiadau isod cyn rhaglennu'r Connect. **Nodyn:** mae rhai cysylltiadau RJ11 yn gydnaws - cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

Troi Ymlaen

I droi ymlaen, pwyswch a dal y switsh allanol. Bydd y dangosydd LED yn fflachio coch a gwyrdd ac yna'n cynhyrchu tŷn uchel-draw yna fflach lliw gwyrdd byr sy'n cadarnhau ei fod ymlaen. Nawr rhyddhewch y switsh. Mae'n bosib analluogi'r swits, gwelwch Opsiwn 9 ar y dudalen drosodd.

Diffodd

I ddiffodd, pwyswch a dal y switsh allanol. Bydd y dangosydd LED yn fflachio coch a gwyrdd ac yna'n cynhyrchu tŷn isel-draw ac yna fflach lliw coch byr sy'n cadarnhau ei fod i ffwrdd. Nawr rhyddhewch y switsh. Mae'n bosib analluogi'r swits, gwelwch Opsiwn 9 ar y dudalen drosodd.

Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau

I raglennu'r moddau/opsiynau, defnyddiwch y dull canlynol:

1. Trowch y deial i'r gosodiad a ddymunir
2. Pwyswch a dal i lawr y swits mewnol am tua 2 eiliad efo offer addas nes bod LED 2 yn newid lliw a chlywir sŵn
3. Rhyddhewch y swits mewnol. Mi fydd LED 2 a'r seinydd yn fflachio/bipio i gadarnhau'r rhif modd/opsiwn sydd wedi cael eu dewis. Nodwch fydd yna gam ychwanegol pan fydd yn defnyddio moddau 3 a 4, gwelwch y disgrifiadau ar y dudalen nesaf am fanylion.
4. Ailadroddwch gamau 1-3 am foddau/opsiynau arall
5. Os yr ydych yn defnyddio moddau 1-4, gosodwch y deial i'r oedi absenoldeb sydd wedi eu disgrifio isod. Nid oes angen pwysu'r swits mewnol i osod yr oedi absenoldeb.

Oedi Absenoldeb (Moddau 1-4 yn unig)

Ar ôl i'r moddau / opsiynau gael eu dewis, trowch y deial i'r rhif a ddymunir sy'n paru i'r amser oedi sy'n ofynnol. Nid oes angen pwysu a dal y switsh wedyn. Y gosodiadau amser yw:

0 – 0.5 Eiliad	5 – 1 Munud
1 – 1 Eiliad	6 – 3 Munud
2 – 3 Eiliad	7 – 10 Munud
3 – 10 Eiliad	8 – 15 Munud
4 – 30 Eiliad	9 – 30 Munud

Cysylltu'r Connect i'r Notifier neu system dderbyn arall

1. Rhagluniwch y Connect i'r modd a ddymunir (os ydych chi'n defnyddio moddau 1-4, gwnewch yn siŵr bod yr oedi absenoldeb wedi'i osod i'r nifer lleiaf).
2. Paratowch yr Notifier / system arall wrth ei rhoi yn fodd cofrestru.
3. Actifadu'r Connect
4. Dylai'r Notifier / system arall gydnabod y ddyfais newydd.

Moddau/Opsiynau

Mae'n bosib rhaglennu'r Connect yn hawdd wrth ddefnyddio'r deial sydd wedi eu gosod yn yr adran batri. Mae'r deial wedi eu rhoi o 0-9. Mae'r opsiynau wedi eu hesbonio isod:

Rhif.0. Modd Sbardun Personol. Mae modd 0 yn gyrru neges radio unwaith fydd dyfais yn cael eu hactifadu. Mae'r modd yma yn gyfwerth a gosodiad 'Pendant' ar drosglwyddu cyffredinol.

Rhif.1. Modd Absenoldeb Gwely/Cadair. Mae modd 1 wedi eu dylunio i weithio efo padiau gwely/gadair ac yn gweithio efo'r oedi absenoldeb wedi eu rhestru ar y dudalen drosodd. Mi fydd y modd hwn yn gyrru neges radio pan fydd rywun yn gadael gwely/cadair, ag yn gyfwerth a gosodiad 'Bed Occupancy Sensor' ar drosglwyddu cyffredinol. Mi fydd y modd yma yn gweithio pan fydd pwysau wedi eu rhoi ar y pad am fwy na 3 eiliad, i roi amser i'r person setlo.

Rhif.2. Modd Rhithiol Gwely/Cadair. Mae modd 2 wedi eu dylunio i weithio efo padiau gwely/gadair ac yn gweithio efo'r oedi absenoldeb wedi eu rhestru ar y dudalen drosodd. Mi fydd y modd hwn yn gyrru neges radio pan fydd rywun yn mynd ar neu adael gwely/cadair, ag yn gyfwerth a gosodiad 'Bed In/Out' ar drosglwyddu cyffredinol. Mi fydd y modd yma yn gweithio pan fydd pwysau wedi eu rhoi ar y pad am fwy na 3 eiliad, i roi amser i'r person setlo.

Rhif.3. Modd Synhwyrdd Gadael Eiddo, Mae modd 3 wedi eu dylunio i weithio efo cysylltiadau drws ag yn gweithio efo'r oedi absenoldeb ar y dudalen drosodd. Mae'r modd hwn yn gyrru neges radio pan mae drws yn agor, yn gyfwerth a gosodiad 'Door Open' ar drosglwyddu cyffredinol. Os mae cysylltiadau drws 'wedi cau fel arfer' yn cael eu defnyddio, mae rhaglennu yn union a ddisgrifir yn adran 'Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau' ar y dudalen drosodd. Mae yna gam ychwanegol of fydd cysylltiadau drws 'wedi agor fel arfer' yn cael eu defnyddio: ar ôl cam 3, mi fydd LED 2 yn fflachio yn wyrdd/coch am 3 eiliad, yn ystod yr amser yma pwyswch y swits mewnol unwaith i ddewis yr opsiwn am 'yn agor fel arfer'. I fynd ôl i'r opsiwn 'wedi cau fel arfer', ailadrodd cam 3 a phwyswch y swits mewnol eto tra mae LED 2 yn fflachio'n wyrdd/coch. **Pwysig:** Os mae'r gosodiad wedi cael eu newid o 'cau fel arfer' i 'ar agor fel arfer' ni fydd ailosod i osodiadau ffatri yn newid y gosodiad, felly mae rhaid newid â llaw os mae angen newid. **Nodyn:** Mi ddylai'r oedi absenoldeb cal eu gosod i'r opsiwn lleiaf ar gyfer Modd 3 achos fydd cau'r drws o fewn yr amser oedi yn meddwl ni fydd neges radio yn cael eu gyrru.

Rhif.4. Modd Drws Rhithiol. Mae modd 4 wedi eu dylunio i weithio efo cysylltiadau drws ag yn gweithio efo'r oedi absenoldeb ar y dudalen drosodd. Mae'r modd hwn yn gyrru neges radio pan mae drws yn agor ac yn cau. Os mae cysylltiadau drws 'wedi cau fel arfer' yn cael eu defnyddio, mae rhaglennu yn union a ddisgrifir yn adran 'Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau' ar y dudalen drosodd. Mae yna gam ychwanegol of fydd cysylltiadau drws 'wedi agor fel arfer' yn cael eu defnyddio: ar ôl cam 3, mi fydd LED 2 yn fflachio yn wyrdd/coch am 3 eiliad, yn ystod yr amser yma pwyswch y swits mewnol unwaith i ddewis yr opsiwn am 'yn agor fel arfer'. I fynd ôl i'r opsiwn 'wedi cau fel arfer', ailadrodd cam 3 a phwyswch y swits mewnol eto tra mae LED 2 yn fflachio'n wyrdd/coch. **Nodyn:** Os mae hysbysiad o ddrws ar agor ar unwaith eu hangen, mi ddylai'r oedi fod y lleiaf posib.

Rhif.5. Modd Mat Pwysau. Mae modd 5 yn gyrru neges radio'r eiliad mae'r mat yn cael eu hactifadu. **Nodyn:** Nid yw mat pwysau yn codi larwm yn ddiodyn ar Lifeline, mae rhaid defnyddio PC Connect i alluogi hyn.

Rhif.6. Modd Synhwyrdd Epilepsi. Mae modd 6 yn gyrru neges radio'r eiliad mae'r synhwyrdd yn actifadu. Mae'r modd yma yn gyfwerth ag gosodiad 'Epilepsy' ar drosglwyddu cyffredinol.

Rhif.7. Modd Synhwyrdd Enwresis. Mae modd 7 yn gyrru neges radio'r eiliad mae'r synhwyrdd yn actifadu. Mae'r modd yma yn gyfwerth ag gosodiad 'Enuresis' ar drosglwyddu cyffredinol.

Rhif.8. Opsiwn Sain. Mi fydd yna sŵn pan mae'r Connect yn actifadu (yn dibynnu ar y modd sydd wedi eu dewis) a pan fydd neges radio yn cael eu gyrru. Mae'r opsiwn yma i ffwrdd yn ddiodyn. I droi'r sain ymlaen, dilynwch y camau yn adran 'Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau' ar y dudalen drosodd, mi fydd y Connect yn bipio a fflachio'n wyrdd wyth gwaith i gadarnhau fod y sain wedi troi ymlaen. Dilynwch yr un camau i droi'r sain i ffwrdd, mi fydd y Connect yn bipio a fflachio'n goch wyth waith i gadarnhau fod y sain wedi troi i ffwrdd.

Rhif.9. Opsiwn Swits Allanol. Mae'r swits wedi eu galluogi'n ddiodyn. Pan fydd y swits wedi analluogi, ni ellir troi'r Connect i ffwrdd wrth ddefnyddio'r swits allanol. I analluogi'r swits, dilynwch y camau yn adran 'Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau' ar y dudalen drosodd, mi fydd y Connect yn bipio a fflachio naw gwaith i gadarnhau fod y swits wedi cael eu hanalluogi. Dilynwch yr un camau i alluogi'r swits, mi fydd y Connect yn bipio a fflachio naw gwaith i gadarnhau fod y swits allanol wedi eu galluogi.

Enghreifft Rhaglennu

Mae'r canlynol yn esiampl o'r camau eu hangen i raglennu nifer o opsiynau a gosod cyfnod absenoldeb.

- Rhif.1 (Modd Absenoldeb Gwely)

- Rhif.8 (Sain i ffwrdd/ymlaen)

- Oedi absenoldeb o 3 eiliad (Rhif.2 ar y deial)

1. Troi'r deial i Rhif.1
2. Pwyswch a dal i lawr y swits mewnol am tua dau eiliad wrth ddefnyddio offer addas nes mae'r uned yn bipio ac mae LED 2 yn newid o goch i ambr. Mi fydd LED 2 a'r seinydd yn fflachio/bipio unwaith i gadarnhau fod modd 1 wedi cael eu dewis.
3. Troi'r deial i Rhif.8
4. Pwyswch a dal i lawr y swits mewnol am tua dau eiliad wrth ddefnyddio offer addas nes mae'r uned yn bipio ac mae LED 2 yn newid o goch i ambr. Mi fydd LED 2 a'r seinydd yn fflachio/bipio wyth waith i gadarnhau fod opsiwn 8 wedi cael eu dewis.
5. Troi'r deial i Rhif.2 (absenoldeb 3 eiliad)